**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mercher, 12 Hydref 2022 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd Paula O'Connor (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| T J Hennegan | P R Hood-Williams | A J Jeffery |
| J W Jones | M B Lewis | M W Locke |
| S Pritchard | K M Roberts | L V Walton |
| T M White | P M Black | A S Lewis |

**Aelod(au) Lleyg**
Philip Sharman

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Marlyn Dickson | Rheolwr y Rhaglen Newid Strategol |

**Sefydliadau Cynrychioliadol**

| | |
|---|---|
| Peter Black CBE | Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu |
| Chris Bolton | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Non Jenkins | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Andrea Lewis | Dirprwy Arweinydd y Cyngor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Gordon Anderson, Julie Davies, Gillian Gillet

---

**48 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**49 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel cofnod cywir, yn amodol ar y canlynol: -

Diwygio cofnod rhif 43 - Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2021-22 i ddarllen: -

'**Penderfynwyd** gohirio'r eitem er mwyn caniatáu i'r adroddiad symud ymlaen drwy'r broses Graffu cyn adrodd amdano wrth gyfarfod Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y dyfodol.'

Nodwyd sylwadau Cynghorwyr a gofynnwyd bod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor, os yw hynny'n bosib.

## 50 Adroddiad Blynyddol Craffu 2021-22 a Rhaglen Waith Craffu.

Cyflwynodd y Cynghorydd Peter Black, Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu Adroddiad Blynyddol Craffu 2021-22 a'r Rhaglen Waith Craffu 'er gwybodaeth'.

Amlinellwyd bod yr adroddiad yn cefnogi datblygu perthynas gref rhwng yr adran Graffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio trwy ddarparu Adroddiad Blynyddol Craffu 2021-22 a gyhoeddwyd yn ddiweddar a gwybodaeth ynghylch y Rhaglen Waith Craffu.

Mynegodd bryder ynghylch presenoldeb Cynghorwyr yng nghyfarfodydd y paneli Craffu ac adnoddau staff sy'n cefnogi'r broses Graffu.

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- Cynigion sydd wedi'u cychwyn i wella presenoldeb Cynghorwyr mewn cyfarfodydd Paneli Craffu/Pwyllgorau Cyflawni Corfforedig.
- Rolau gwahanol Craffu a Phwyllgorau Cyflawni Corfforedig, yn enwedig y disgrifiad o fewn adroddiad Newyddion Craffu.
- Osgoi dyblygu rhwng Craffu a Phwyllgorau Cyflawni Corfforedig, wrth gydnabod byddai gorgyffyrddiadau o ran gwaith yn digwydd.
- Gwaith parhaus Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch adolygu'r broses Graffu/risgiau o fewn y cyngor a'r adroddiad cadarnhaol a dderbyniwyd yn ystod yr adolygiad blaenorol.
- Y llwyddiannau blaenorol a gafwyd gan Graffu yn genedlaethol.

Nododd y Cadeirydd y trefniadau Craffu sy'n cael eu trefnu gan Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru wrth gyflwyno is-bwyllgor trosolwg a chraffu yn ogystal â Phwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Diolchodd i Gadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu am gyflwyno'r adroddiad.

## 51 Cyflwyniad ar y Cyd - Dod Allan O COVID.

Darparodd Chris Bolton, Non Jenkins, Swyddfa Archwilio Cymru a Marlyn Dickson, Rheolwr y Rhaglen Newid Strategol gyflwyniad ar y cyd ar ddod allan o COVID-19.

Roedd y manylion a ddarparwyd yn y cyflwyniad yn cynnwys: -

- Strwythur
- Profi ymagwedd wahanol

- Triawdau gwrando
- Canfyddiadau Allweddol
- Rwy'n gwneud fy swydd yn well, ac yn rhiant gwell.
- A wnaethom ateb y cwestiwn?
- Beth sy'n digwydd nesaf?

Gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau i'r cyflwynwyr a ymatebodd yn briodol.  Cafwyd trafodaethau am y canlynol: -

- Pethau cadarnhaol/negyddol a ganfuwyd.
- Y defnydd gwych o driawdau gwrando a'r neges allweddol nad yw un maint yn addas i neb.
- Tynnu sylw at arfer da a sut roedd staff wedi helpu ym meysydd gwahanol y cyngor.
- Archwilio cam nesaf y broses.
- Lefel uchel yr allbwn i'r Pwyllgor ei drafod a'r angen i ddarparu'r manylion y tu ôl iddo.
- P'un a oedd yr awdurdod wedi defnyddio adnoddau'n effeithiol yn ystod y cyfnod hwn, yr angen am fanylion ychwanegol er mwyn gwneud unrhyw gasgliadau ar effeithlonrwydd a dosbarthu'r cyflwyniad manylach a gyflwynwyd i'r Tîm Rheoli Corfforaethol i'r Pwyllgor.
- Darparwyd sicrwydd bod adnoddau wedi'u defnyddio'n effeithiol trwy gydol y pandemig.
- Maint y sampl a ddefnyddiwyd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am ddarparu'r cyflwyniad a nododd fod y canfyddiadau'n gadarnhaol ond bod angen rhoi rhagor o wybodaeth er mwyn sicrhau'r Pwyllgor.

**52 Adroddiad Traciwr Gweithredu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.**

Adroddwyd am Adroddiad Olrhain Camau Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu 'er gwybodaeth'.

Gofynnodd y Cadeirydd am y diweddaraf ynghylch cofnod rhif 76 o 8 Chwefror 2022 ar y risgiau corfforaethol newydd mewn perthynas â WCCIS (System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru) ac argaeledd gofal cartref.

**53 Cynllun Gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.**

Adroddwyd am Gynllun Gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 'er gwybodaeth'.

Holodd y Pwyllgor pryd byddai Datganiad Ariannol/ISA 260 Swyddfa Archwilio Cymru yn cael ei gyflwyno. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Cyllid y byddai'r adroddiadau'n cael eu cyflwyno gyda Datganiad o Gyfrifon 2021-22, yr oedd yntau'n disgwyl iddo fod yn barod ar ddechrau'r flwyddyn newydd o ganlyniad i anawsterau technegol lleol a chenedlaethol.

Gofynnodd y Pwyllgor hefyd i gael adroddiad am yr Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2021-22 yn ystod y cyfarfod nesaf ar 9 Tachwedd 2022, gan gadw mewn cof nifer yr eitemau yr adroddir amdanynt ym mhob cyfarfod.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.21 pm

**Cadeirydd**